## ADRAN 1. PA GAMAU MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

**Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut rydych wedi cymhwyso / sut byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau arfaethedig, drwy gydol y polisi a'r cylch cyflawni?**

Ers i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn 2020, mae llawer o ddeddfwriaeth yr UE wedi dod yn gyfraith a gymathwyd. Mae hyn wedi cynnwys y Cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau, y Cynllun Ymyrraeth Gyhoeddus a'r Cynllun Cymorth Storfeydd Preifat. Sefydlwyd y cynlluniau hyn gan yr UE i gefnogi'r sector amaethyddol.

**Y Cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau**

Mae'r cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau yn cynnig cymorth ariannol i sefydliadau cynhyrchwyr a gydnabyddir yn swyddogol i gynyddu cynhyrchu ffrwythau a llysiau, drwy gynnig cyllid ar gyfer camau gweithredu sy'n eu helpu i gystadlu'n well, gyda ffocws penodol ar gydweithredu a chynhyrchiant. Mae hyn ar sail arian cyfatebol ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau cynhyrchwyr  fodloni set benodol o ofynion cyn y gallant wneud cais am y cyllid. Dyma'r gofynion:

- rhaid i brif swyddfa'r sefydliad fod yn y wlad gyfansoddol lle mae'r rhan fwyaf o werth ei gynnyrch sy'n cael ei farchnata[1] yn cael ei chyfrifo neu, lle mae'r rhan fwyaf o'i aelodau wedi'u lleoli. Ni ellir symud y brif swyddfa tan ddiwedd y rhaglen weithredol
- rhaid i'w aelodau gynnwys o leiaf pum tyfwr, a phob un ohonynt yn endidau cyfreithiol ar wahân
- rhaid bod â throsiant blynyddol o €1 miliwn (o ran cynhyrchiant y gellir ei farchnata) – ar gyfer sefydliadau cynhyrchwyr a gydnabyddir ar gyfer madarch neu gnau yn unig mae hyn yn €250,000
- rhaid iddo fod wedi'i ffurfio drwy fenter ffermwyr sy'n tyfu un neu ragor o'r cynhyrchion a restrir yn Atodiad I i Reoliad EUR Rhif 2013/1308 a/neu gynhyrchion o'r fath a fwriedir yn gyfan gwbl ar gyfer prosesu

[1] Gwerth y cynnyrch sy'n cael ei farchnata yw gwerth y cynnyrch yr adeg y mae'n gadael y sefydliad cynhyrchwyr neu'r gymdeithas sefydliadau cynhyrchwyr

- rhaid iddo ddefnyddio arferion tyfu, technegau cynhyrchu ac arferion rheoli gwastraff sy'n ecogyfeillgar, yn enwedig o ran diogelu ansawdd dŵr, pridd a'r dirwedd, a gwarchod neu annog bioamrywiaeth

Ers sefydlu'r Cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau ym 1996, ni chafwyd unrhyw geisiadau oddi wrth sefydliadau cynhyrchwyr yng Nghymru. Mae hyn yn dangos nad yw'n cefnogi'r sector garddwriaeth yng Nghymru ac y dylid ei adolygu. Rydym yn cynnig cau'r cynllun presennol a gweithio gyda'r sector i ddeall sut i gefnogi'r sector garddwriaeth yng Nghymru yn well.

**Y cynllun Ymyrraeth Gyhoeddus a'r cynllun Cymorth Storfeydd Preifat**

Mae'r Cynllun Ymyrraeth Gyhoeddus a'r Cynllun Cymorth Storfeydd Preifat yn ddau o'r prif fecanweithiau ar gyfer ymyrryd yn y farchnad o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin er mwyn cefnogi prisiau'r farchnad. O dan y ddau gynllun, mae nwyddau'n cael eu tynnu o'r farchnad pan fydd prisiau'n mynd yn is na throthwyon penodol.

Ar hyn o bryd, mae'r Cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus gorfodol yn agor yn awtomatig os yw pris y farchnad yn disgyn o dan y trothwy, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA) brynu'r cynhyrchion hyd at faint penodol. Mae Cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus yn cynnig cymorth ariannol pan fydd argyfwng wedi achosi prisiau i ostwng yn aruthrol ac mae Gweinidogion Cymru wedi datgan yn ffurfiol fod amgylchiadau eithriadol yn y farchnad. Mae'r cynlluniau wedi dod yn ffurfiau aneffeithlon o gefnogi'r farchnad ac mae ganddynt sail resymegol economaidd wan. Cawsant eu cynllunio i gefnogi ffermwyr yn ystod adegau o orgynhyrchu yn y 1980au ac maent wedi dod yn llai defnyddiol ers diwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ym 1992.

Mae'r Cynllun Cymorth Storfeydd Preifat ar agor er mwyn storio cynhyrchion amaethyddol am gyfnod penodol pan nad oes modd gwneud elw wrth werthu nwyddau am fod prisiau'r farchnad mor isel. Mae Llywodraeth Cymru yn talu costau storio hyd at swm penodol. Wedyn mae'r cynhyrchion yn cael eu tynnu o'r storfa a'u gwerthu yn ddiweddarach, pan fydd yn debygol bod prisiau wedi codi.

Nid yw'r Cynllun Ymyrraeth Gyhoeddus na'r Cynllun Cymorth Storfeydd Preifat wedi cael eu defnyddio yng Nghymru ers o leiaf 2000 ac nid ydynt yn cynnig gwerth am arian i'r Sector Cyhoeddus. Pan oedd argyfyngau wedi codi mewn marchnadoedd amaethyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae pwerau ymyrraeth yn y farchnad, sydd bellach wedi'u cynnwys yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, wedi caniatáu i Weinidogion Cymru gefnogi ffermwyr drwy daliadau uniongyrchol mewn amgylchiadau eithriadol. Mae hyn yn ddull llawer mwy cost-effeithiol o ymyrryd er mwyn cefnogi busnesau fferm, gan fod y costau i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r incwm mae'r ffermwyr wedi'i golli, yn hytrach na bod yn seiliedig ar gostau cyfleusterau storio. Defnyddiwyd pwerau tebyg i ymyrryd yn y farchnad er mwyn rhoi cymorth ariannol i ffermwyr llaeth yn ystod pandemig Covid-19.

**Cynigion**

Rydym yn cynnig cau pob un o'r tri chynllun hyn yng Nghymru. Drwy ddileu'r cynlluniau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn atal arian cyhoeddus rhag cael ei wario mewn ffordd aneffeithlon, a bydd yn gweithio gyda rhanddeiliaid i helpu i gefnogi'r sector amaethyddol mewn ffyrdd mwy effeithiol.

Yng Nghymru, pe bai unrhyw geisiadau wedi cael eu gwneud i'r cynlluniau hyn, byddent wedi cael eu rheoli gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig. Mae newidiadau i Gytundebau Asiantaeth yn golygu na fydd yr Asiantaeth Taliadau Gwledig yn parhau i wneud hyn. Pe bai Llywodraeth Cymru yn parhau i redeg y cynlluniau hyn, byddai angen iddi eu gweinyddu drwy Daliadau Gwledig Cymru (RPW), a byddai hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar RPW. Ar hyn o bryd, nid oes ganddynt fecanwaith i dderbyn a phrosesu taliadau ar gyfer y Cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau, y Cynllun Ymyrraeth Gyhoeddus na'r Cynllun Cymorth Storfeydd Preifat. Byddai gweithredu'r newidiadau hyn yn rhoi straen gweinyddol ac ariannol mawr ar Lywodraeth Cymru drwy gyflwyno set o brosesau newydd nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd. Ar ben hynny, i ddod yn sefydliad cynhyrchwyr, byddai'n rhaid i ymgeiswyr gael eu cydnabod gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig cyn dod yn gymwys ar gyfer y cynllun. Byddai angen i sefydliadau cynhyrchwyr gofrestru gyda'r Asiantaeth Taliadau Gwledig cyn y gallent wneud cais am gyllid yng Nghymru, gan roi baich gweinyddol ychwanegol ar y rhai sydd am ymuno â'r cynllun.

Ym **Mis Mehefin 2025** gwnaethom agor ymgynghoriad 12 wythnos i ganiatáu i randdeiliaid helpu i lywio ein penderfyniadau polisi ac i ddeall unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'r newidiadau yn y cynlluniau yng Nghymru. Ni ddaeth llawer o ymatebion i'r ymgynghoriad i law, ond at ei gilydd roedd pobl o blaid dileu'r cynlluniau yng Nghymru. Mae'r asesiad effaith isod yn amlinellu'r ymatebion. Gan mai cynnig deddfwriaethol yw hwn, cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## ADRAN 8. CASGLIAD

(Sylwer: bydd yr adran hon yn cael ei chyhoeddi)

**8.1 Sut mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi cael eu cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 12 wythnos i ddeall barn y cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch y cynigion. Cynhaliwyd trafodaethau pellach â rhanddeiliaid amaethyddol allweddol, sy'n cynrychioli'r rhai y mae'r cynigion yn effeithio arnynt fwyaf. Cytunodd rhanddeiliaid â'r cynnig ac ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau. Gan y bydd y cynnig yn cael effaith fach iawn, neu dim effaith o gwbl, ar blant, pobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu siaradwyr Cymraeg, nid oedd angen cynnal ymgynghoriad wedi'i dargedu i gynnwys y grwpiau hyn.

**8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Effaith fwyaf arwyddocaol y cynnig hwn fydd dileu'r posibilrwydd y bydd angen i Lywodraeth Cymru weithredu cynlluniau nad ydynt yn cael eu defnyddio yng Nghymru ac sy'n cynrychioli gwerth gwael am arian.

Nid yw'r cynllun Cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau erioed wedi cael ei ddefnyddio yng Nghymru, sy'n dangos cyfyngiadau amlwg o ran ei ddefnyddio. Nid yw'r Cynllun Ymyrraeth Gyhoeddus na'r Cynllun Cymorth Storfeydd Preifat wedi cael eu defnyddio yng Nghymru ers o leiaf 2000, ond byddai'r angen i Lywodraeth Cymru wneud darpariaeth ar gyfer parhau i'w defnyddio'n creu costau drwy ddefnyddio amser staff mewn ffordd aneffeithlon. Pe bai cynlluniau'n cael eu gweithredu, byddai hyn yn creu costau uniongyrchol o ran talu am storio neu ar gyfer y bwydydd wedi'u prynu. Byddai hefyd yn creu costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru. Mae Deddf Amaethyddol (Cymru) 2023 yn rhoi pwerau ymyrryd yn y farchnad i Weinidogion Cymru fel y gallant gefnogi ffermwyr mewn amgylchiadau eithriadol drwy daliadau uniongyrchol. Mae'r pwerau hyn yn darparu dull mwy effeithiol o ymyrryd er mwyn helpu busnesau fferm. Mae hyn wedi dileu'r angen am y Cynllun Ymyrraeth Gyhoeddus a'r Cynllun Cymorth Storfeydd Preifat, gan nad yw eu rhedeg yn cynnig gwerth am arian i'r sector cyhoeddus. Mae'r cynnig hwn yn dileu'r gost bosibl honno, gan wella'r ffordd rydym yn rheoli arian.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**

- **yn osgoi, yn lleihau, neu’n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae cylch gwaith cyfyngedig y cynnig yn golygu nad yw'n cyfrannu'n uniongyrchol at unrhyw un o Amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru – yn hytrach ei nod yw gwella trefniadau llywodraethu a lleihau'r risg o gostau diangen. Gan nad yw unrhyw effeithiau negyddol wedi cael eu nodi, nid oes angen unrhyw fesurau i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol.

**8.4 Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Oherwydd bod disgwyl i effaith y cynnig fod yn fach, nid oes unrhyw gynlluniau ar gyfer rhaglen fonitro bwrpasol na gwerthusiad ôl-weithredu. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r sector garddwriaethol yng Nghymru ac yn archwilio i opsiynau o ran y ffordd orau i gefnogi'r sector garddwriaethol yng Nghymru yn y dyfodol.